YR YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1901. [RHIF 10.

GWEINIDOGION UNDODAIDD FEL ATHRAWON AC YSGOLFEISTRI.

III.—Y PARCH. DR. DAVID LLOYD, M.A., CAERFYRDDIN.

GAN Y

PROFF. D. E. JONES, M.A., COLEG CAERFYRDDIN.*

GANWYD y Parch. David Lloyd, M.A., Ll.D., yn mhentref Llandyssul, Sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1805. Mab ydoedd i Mr. John Lloyd, Ysgolfeistr yn Llandyssul, yr hwn oedd fab i'r Parch. D. Lloyd, Brynllefrith—ail weinidog Llwynrhydowen—o'i ail wraig Letitia, yr hon a hanai o ochr ei mham o Lwydiaid Ffosybleiddiaid, ac o du ei thad o Mr. Lloyd, Castellhywel, yr Aelod Seneddol cyntaf dros Sir Aberteifi yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed. Gwelir felly fod Dr. Lloyd yn disgyn o achau â hanes ac enwogrwydd yn perthyn iddynt. Safai ei dadcu, Mr. Lloyd, Brynllefrith, yn rhestr flaenaf pregethwyr ac ysgolheigion ei oes yn Nghymru. Cynyddodd yr eglwys yn rhyfeddol o dan ei weinidogaeth rymus. Dywedir y

* Ganwyd Proff. Jones yn y Gwndwn, Llangranog, Chwefror 29ain, 1840. Nid yw wedi cael felly ond 14 o ddyddiau pen blwydd. Ar ol bod yn ysgolion y gymydogaeth aeth i Pontsian yn 1859. Dywed yr ystyrid ysgol Mr. Thomas ar y pryd y goreu yn y Sir, a theimla ei fod o dan rwymedigaethau mawrion am yr addysg fanwl a sylweddol a gafodd yno. Derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn 1862, ac efe oedd y blaenaf yn y dosparth trwy ystod y pedair blynedd. Enillodd ysgoloriaeth Williams ac aeth i Brifysgol Glasgow yn Hydref 1866, lle y graddiodd yn 1870 ar ol gyrfa lwyddianus.

cyrchai pobloedd yno o ugain milldir o gwmpas, fel y rhifai yr eglwys pan fu farw tua wyth cant. Effeithiodd y gair da a ddygid gan yr holl gylchoedd i gymeriad a dylanwad y tadcu ar feddwl yr ŵyr ieuanc, nes tanio ei ysbryd ag awydd angherddol i fod yn debyg iddo fel pregethwr ac ysgolhaig, a glynodd yr awyddfryd hwn wrtho i derfyn ei oes. Da iddo ei fod wedi ei orlenwi a'r fath ysbryd, gan fod ganddo anhawsderau lawer i'w gorchfygu, a brwydrau celyd i'w hymladd, cyn cyrhaedd y nod a osodasai iddo ei hun. Drwg genym orfod cofnodi diofalwch a gwastraff ei dad, yr hwn a dalai lawer mwy o sylw i'r bwyd, neu yn hytrach i'r *diod* a dderfydd, nag i fuddianau y r ysgolheigion. Er y mynychai ein gwrthrych yr ysgol a gedwid gan ei dad, pan ydoedd yn blentyn, eto clywsom ef yn dywedyd amryw weithiau, nad oedd yn cofio iddo dderbyn nemawr ddim, ond ei ran o'r ddysgyblaeth, a thebyg nad rhyw ysgafn iawn a fyddai y cyfryw oruchwyliaeth.

Pan yn ddeg oed, cymerwyd ef gan ei ewythr, Dr. Charles Lloyd, i'r ysgol yn Llundain, lle yr arhosodd tua blwyddyn. Er nad oedd y tymor ond byr, eto dychwelodd i'w hen gartref wedi diwyllio llawer mewn addysg a syniadau. Eto credai nad oedd lle ar y ddaear i'w gystadlu a'i fro enedigol. Os oedd "pentref" Llundain yn llawer eangach na phentref Llandyssul, nid oedd, yn ei olwg ef, haner mor brydferth a phwysig—er fod y tai yn llawer mwy, nid oeddynt yn cael eu cadw yn agos mor laned—ni welsai gareg drws tŷ yn Llun-

---

Ordeiniwyd ef yn Sirhowy, Mynwy, yn Awst y flwyddyn hono, a thra yno bu yn aelod o Fwrdd Ysgol Llangynidr o 1871 hyd ei ddychweliad i Gaerfyrddin yn Ionawr 1875 fel Proffeswr Hebraeg a *Mathematics*. Ar farwolaeth y Proff. Morgan yn 1884, gwnaed ef yn Broffeswr Duwinyddiaeth. Bu am flynyddau yn aelod o Fwrdd Ysgol Caerfyrddin. Yn 1890 dechreuodd ei gysylltiadau a'r Cynghor Sirol, yn yr hwn mae wedi bod yn un o'r aelodau mwyaf enwog a defnyddiol. Bu am ychydig flynyddau yn gadeirydd y Pwyllgor Arianol. Ymgododd i fod yn is-gadeirydd, ac wedi hyny yn gadeirydd y Cynghor, ac yn Ynad Heddwch dros y Sir. Mae ar hyn o bryd yn aelod o'r byrddau canlynol—y Cynghor Sirol, Pwyllgor Sirol yr *Asylum*, y *Technical Instruction Committee*, y *County Governing Body*, Bwrdd Lleol yr Ysgol Ganolradd, cadeirydd Pwyllgor y Trethi Sirol, a chadeirydd Ysgol Gwyddor a Chelf, Caerfyrddin. Gyda'r holl lafur hwn, mae oddiar ei sefydliad yn Nghaerfyrddin yn 1875, wedi bod dros y rhan fwyaf o'r amser yn gwasanaethu fel gweinidog yn Cana, ger Caerfyrddin, ac ar ol hyny yn Nghapel Union Street. Aeth i'r olaf fel olynydd i'r Parch. D. S. Davies. Felly mae yn llanw yr un pwlpud a'r Proff. Morgan, ac yn ei enwogi gyda llawer iawn o nodweddion rhagorol ei ragflaenydd. Yn haf 1895, cymerodd Proff. Jones ran yn ngwasanaeth sefydliad y Parch. T. Arthur Thomas, trwy bregethu yn y Graig, Llandyssul. Mae gan ei hen fyfyrwyr o bob enwad adgofion dymunol am ei amynedd, ei hynawsedd, a'i foneddigeiddrwydd fel athraw, ac nid yw eu parch yn llai tuag ato yn wyneb llawer ymgais onest ond anerbyniol feallai ar y pryd i nodi eu diffygion. Dywed fod ei fywyd wedi bod yn esmwyth a dedwydd, a cheisia gofio bob amser yr hen orchymyn—"Hyd y mae ynoch, byddwch heddychlawn a phob dyn." Yr awyrgylch hyfryd a hafaidd yna fyddo yn ei amgylchu hyd ddiwedd y daith.—GOL

dain wedi ei gwyngalchu nos Sadwrn, fel yr arferid yn Llandyssul. Er fod y Thames yn llawer llydanach afon, nid oedd i'w chymharu a'r Teifi loyw ei dyfroedd, na'i physg mewn dim yn debyg. Bro Llandyssul oedd paradwys iddo ef, fel y teimla pob gwladgarwr tuag at ei fangre enedigol.

Nodweddid ef pan yn llanc gan fywiogrwydd arbenig. Adnabyddid ef gan bawb ar wahan i blant yn gyffredin. Cyfrifid am hyny

Y Parch. Dr. David Lloyd, M.A.

gan y ffaith ei fod yn meddu ar brydferthwch gwynebpryd a sirioldeb ysbryd dihafal. Byddai ei gampau a'i rempiau yn tynu sylw'r trigolion. Disgwylid i bethau mawrion dyfu allan o'r neillduolion hyn, ac felly y bu, fel y ceir gweled.

Ar ei ddychweliad o Lundain, aeth i ysgol y Parch. John Thomas, Pantdefaid, yr hon a ystyrid yn dra enwog y dyddiau hyny. Yr

oedd gair uchel i Mr. Thomas drwy yr holl gylchoedd fel athraw galluog a medrus, yn enwedig yn yr Ieithoedd Clasurol. Gorfodwyd ef (Dr. Lloyd), oherwydd amgylchiadau, i gadw ysgol nos, er mwyn enill ychydig arian i bwrcasu llyfrau at ei wasanaeth yn yr ysgol ddyddiol. Fel engraifft o'i benderfyniad i gyfoethogi ei feddwl ag addysg, dywedir iddo, ar ol enill ychydig sylltau yn y modd a nodwyd, gerdded ol a blaen o Llandyssul i Gaerfyrddin er prynu Grammadeg Lladin; ac wedi sicrhau y trysor, dychwelodd mor ysgafndroed a'r ewig, gan ei fawr falchder o allu sicrhau y fath drysor, er i'r daith hono gostio iddo gerdded dros ddeg-ar-hugain o filldiroedd yr un diwrnod! Gweithiodd yn galed, a gwnaeth gynydd amlwg yn ysgol Mr. Thomas, a safai yn uchel yn marn ei athraw fel dyn ieuanc o ragolygon disglaer a gobeithiol.

Yn y flwyddyn 1825, safodd arholiad am dderbyniad i Goleg Caerfyrddin, a phasiodd yn llwyddianus iawn, a threuliodd yma bedair blynedd, a safai yn uchel yn ei holl ddosbarthiadau. Yn yr arholiad ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf yn y Coleg, tynwyd sylw neillduol yr arholwr craff a medrus, y Parch. D. Davison, aelod o'r Bwrdd Presbyteraidd, at ei alluoedd a'i atebion parod a chywir. Gwnaeth Mr. Davison sylw cyhoeddus a ffafriol iawn ar hyn; a dylid crybwyll mai y cyfeiriad caredig ac amserol hwn o eiddo Mr. Davison a enynodd ynddo yr awydd a'r penderfyniad i ragori fel ysgolor. Ar derfyn y cwrs yn Nghaerfyrddin, parodd yr awydd a grybwyllwyd iddo wneud ei feddwl i fyny i fyned am gwrs o addysg i Brifysgol Glasgow. Yn 1829 enillasai Ysgoloriaeth y Dr. Williams, a dechreuodd ei efrydiaeth yn uniongyrchol yn y Brifysgol. Cymerodd safle anrhydeddus yn mhob dosbarth, ac enillodd yr ail wobr yn y *Logic Class*. Cafodd Mr. Tait, wedi hyny Archesgob Caergaint, drafferth nid bychan i gipio y wobr flaenaf oddi arno. Arferai Dr. Lloyd ddweyd, mewn ysmaldod, ar ol dyrchafiad Mr. Tait i'r Fainc Esgobol, y buasai yntau, pe wedi cydffurfio, yn sefyll siawns dda am Esgobaeth. Yn 1833 gorphenodd yn Glasgow, ar ol graddio yn M.A. gydag anrhydedd. Anrhydeddwyd ef yn mhellach yn 1851 gan y Brifysgol uchod a'r gradd o Ll.D.

Ar ol gorphen ei efrydiaeth yn Glasgow yn 1833, apwyntiwyd ef yn Athraw Clasurol a Mesuronol yn Ngholeg Caerfyrddin, a threuliodd ddeng-mlynedd-ar-hugain yma yn barchus a defnyddiol iawn. Saif ei enw yn anwahanadwy â hanes a llwyddiant y Coleg hwn byth mwy.

Perthynai i Dr. Lloyd neillduolion arbenig yn ei gymeriad fel dyn cyhoeddus.

(*a*) Fel Gweinidog. Ymgymerodd Dr. Lloyd a gofal yr achos Undodaidd yn y dref hon ar ei ddyfodiad i fod yn Athraw y Coleg. Teimlai ddyddordeb neillduol yn yr achos er ei fod yn gymharol wan. Taflodd ei ddylanwad o'i blaid, ac aberthodd lawer er ei fwyn. Trwy ei ymdrechion ef yn benaf yr adeiladwyd y capel presenol, ac y talwyd am dano. Er ei fod yn Undodwr o'r Undodiaid, yr oedd ar dir

cyfeillgar a'i holl frodyr yn y weinidogaeth o bob enwad, ac yn gyfaill mynwesol iawn i'r diweddar Broffeswr Morgan, a dangosai barodrwydd mawr i gynorthwyo pob achos teilwng yn mysg pob enwad. Barnai yn uchel am Mr. Morgan a'i bobl, fel yr arferai gynghori y myfyrwyr Anibynol ar eu mynediad i'r Coleg i fyned i Gapel Union Street at Mr. Morgam am y dywedai "mai pobl gadwedig i gyd oedd gan Mr. Morgan—bob un o honi nw". Safai yn hollol ar ei ben ei hun fel pregethwr; cyfansoddai ei bregethau a thraddodai hwynt mewn arddull nodweddiadol hollol ohono ei hun. Byddai ar adegau yn ddifyr, digrifol, a chartrefol ei gydmariaethau, yn neillduol felly pan y pregethai Gymraeg.

(*b*) Fel Athraw. Ystyrid ef gan bawb a'i hadwaenai yn athraw o allu a medr uwchraddol. Posibl yr edrychid arno gan y myfyrwyr ar adegau fel un llym a llawdrwm, yn enwedig gan y rhai mwyaf esgeulus ohonynt, ond byddai yr elfen chwarëus oedd mor llawn ynddo yn lleddfu y llymder, nes peri i'r rhai mwyaf difater ohonynt deimlo yn garedig ac anwyl tuag ato. Parai gwyllter ei dymher iddo yn y dosbarth ar adegau fygwth a stormio cryn lawer, ond yr oedd ei faddeugarwch a'i garedigrwydd y fath fel nad oedd berygl i'r haul fachlud ar ei ddigofaint. Profodd llawer o'r dynion ieuainc o'i haelioni, yn neillduol y rhai cyfyngaf eu hamgylchiadau ohonynt. Gellid pwyso arno am gefnogaeth a help mewn caledi, a cheid ef bob amser mewn adegau felly yn colli yr athraw yn y tad. Nid oedd enwadaeth yn ymyru a'i garedigrwydd yn hyn o gwbl. Credai yn gryf nad oedd daioni yn gyfyngedig i gylch enwad neu unrhyw nifer o enwadau. Difyrwyd ni yn y dosbarth fwy nag unwaith wrth wrando arno yn adrodd ei gyfarfyddiad â Dr. Pye Smith yn nhy cyfaill yn Ngogledd Cymru: "Pan gyflwynid fi gan fy nghyfaill i Dr. Pye Smith, dywedai yr olaf fod yn dda ganddo gael ysgwyd llaw â mi fel ysgolhaig a boneddwr, ond fod yn ddrwg ganddo nas gallai fy nghydnabod fel Cristion." Chwarddai Dr. Lloyd yn iachus wrth wneud y sylw ei fod yn beth mor wrthun, a dywedai, gan osod ei law ar ei fynwes, "ni chafodd ei sylw un effaith arnaf, am y gwyddwn fod Iesu Grist genyf fi yn llonaid y fan hon. Yr oedd y sylw i mi yr un peth yn union a phe byddai i hen wraig yn Spilman Street gwrdd â Mr. Morris, y Bank, a dywedyd, 'Boreu da, Mr. Morris, yr wyf yn falch o'ch cyfarch fel dyn, ond drwg genyf nas gallaf eich cyfarch fel dyn cyfoethog.' Buasai Mr. Morris yn sicr o chwerthin yn iachus uwchben y cyfarchiad, am y gwyddai fod ei goffrau yn llawnion o aur ac arian. Yr un peth i mi oedd cyfarchaid Dr. Pye Smith."

(*c*) Fel Dadleuydd a Llenor. Cymerodd ran mewn amryw o ddadleuon, a rhai ohonynt ar faterion, a ystyrid ar y pryd, yn lled dwym a chyffrous. Dichon nad oedd yn feddianol ar y cymhwysderau ystyrid yn hanfodol i ddadleuydd boneddigaidd a llwyddianus, oherwydd ei fod yn wyllt o dymher ac yn rhy bendant ei farn, yn neillduol am bethau y gellid codi dadl yn eu cylch. Perthynai fel dadleuydd i ysgol geidwadol ei oes; braidd na ddywedwn ei fod yn

ymylu, i raddau gormodol, ar fod yn anffaeledig yn yr hyn a gredai efe. Cawn iddo fod mewn dadleuon poethion a'r Parchn. D. A. Williams, Canghellydd Esgobaeth Ty Ddewi, a Hugh Jones (B.), Caerfyrddin. Bu hefyd mewn dadl faith â Dr. Thirlwall, Esgob Ty Ddewi, yn nghylch syniadau Germanaidd Dr. Rowland Williams. Ysgrifenodd gyfres o adolygiadau ar bregethau Dr. Martineau i'r *Christian Reformer*, yn y rhai y pwysai ac y mesurai syniadau a gosodiadau y gwr enwog uchod, ac ni phetrusodd eu dyfarnu, yn ol safon ei glorian ef, yn fyr o bwysau. Ychydig feddyliodd ef a'i edmygwyr ei fod yn yr ysgrifau hyn yn clorianu un o feddylwyr mwyaf treiddgar ac athronyddol y ganrif. Hawdd y gallasai Dr. Martineau, wrth gyfeirio at yr ysgrifau hyn, wenu, a gwneud y sylw canlynol wrth gyfaill, "*I thought I was going to be snuffed out then.*"

(*d*) Fel Dinesydd. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain a dreuliwyd ganddo yn Nghaerfyrddin, cymerai y dyddordeb mwyaf dwfn yn mhob symudiad oedd a'i duedd at lesoli ei gyd-drefwyr, yn mysg y rhai y gellir, allan o lawer, enwi yn mlaenaf, ymdrech i ddwyn y werin bobl i afael addysg a gwybodaeth. Efe oedd un o'r rhai cyntaf a phenaf i gychwyn a sefydlu y *Scientific Institute* yn y dref. Parodd ei sefydlu iddo lawer o ymdrech a llafur, a chyfranodd lawer o'i eiddo tuag ati. Gellir ei hystyried yn un o'r sefydliadau sydd wedi profi o'r gwerth mwyaf i ddiwyllio a chyfoethogi meddyliau y bobl drwy y blynyddoedd. Gwasanaethodd fel is-lywydd pwyllgor y sefydliad am amser maith.

Yr oedd, oherwydd y profiad a gawsai i ymladd am addysg ei hun, pan yn ieuanc, yn teimlo yn angherddol dros blant tlodion, fel yr ymroddodd yn egniol gydag eraill i sefydlu Ysgolion Brytanaidd yn y dref a'r cylch. Efe fu a'r llaw flaenaf yn sefydliad y *Lancasterian School* yn y dref, yr hon a brofodd o wasanaeth mawr i blant y werin, ac sydd erbyn hyn yn cael ei hystyried yr ysgol bwysicaf yn y dref.

Gweithiodd hefyd yn egniol iawn er sicrhau Claddfa Gyhoeddus i'r dref, fel y gall Caerfyrddin erbyn heddyw deimlo fod ganddi un o'r claddfeydd prydferthaf yn y deyrnas. Gellir crybwyll yma mai yn naear hon y gorphwys yn dawel ei weddillion ef a'i olynydd hynaws, y Parch. Stephenson Hunter.

Rhaid crybwyll eto mewn modd arbenig am y rhan a gymerwyd ganddo yn sefydliad, adeiladaeth, a chynaliaeth y Clafdy. Teithiodd, areithiodd, casglodd a chyfranodd lawer yn bersonol i'r amcan gogoneddus hwn. Nid oedd dim yn fwy cydnaws a'i anian na noddi, helpu, a lleddfu poenau a doluriau ei gyd-ddynion—gellir dywedyd am dano yn yr ystyr hon, fel am yr Arglwydd Iesu, ei fod yn "cymeryd arno eu doluriau" a'u gwendidau.

Priododd â Miss Smith, chwaer Mr. J. Hunton Smith, Fferyllydd, Caerfyrddin, a bu iddynt ddau o blant—mab a merch. Bu farw y mab, ond y mae y ferch, fel y deallwn, yn fyw, ac yn trigianu yn Liverpool.

Bu Dr. Lloyd farw Medi 13eg, 1863, yn y driugeinfed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef gydag anrhydedd a pharch mawr—mewn gair, cafodd ei gladdu fel tywysog; gwnai gwreng a boneddig droi allan ar ddydd ei angladd i ddangos eu parch i'w goffadwriaeth—yr oedd yr arwyddion parch a galar yn amlwg a digamsyniol drwy yr holl dref a'r cylchoedd y diwrnod hwnw.

EIN HIEUENCTYD.

Yr anhawsder i gadw gafael yn ein pobl ieuainc sydd un peth y cwynir yn aml o'i blegid yn ein plith. Mae plant ein teuluoedd, pan yn gadael yr aelwyd ac yn ymsefydlu mewn ardaloedd yn y rhai nid oes genym yr un achos, fel rheol yn fuan yn anghofio yr hen gapel a'r ysgol Sul lle eu magwyd, ac yn ymuno ag un o'r enwadau iawnffyddol; ac nid yn unig yn ymuno a hwynt, ond deuant hefyd yn fwy cul eu golygiadau a rhagfarnllyd eu teimladau yn ein herbyn nag hyd yn nod y rhai ydynt wedi eu magu yn awyrgylch iawnffyddiaeth.

Pan yr ymsefydla ein pobl ieuainc mewn ardaloedd nad oes genym yr un achos ynddynt, nid oes ganddynt un dewisiad ond ymuno ag un o'r achosion iawnffyddol, a gwell genym eu gweled yn gwneud hyn na pheidio. Mae mynychiad rheolaidd o unrhyw le o addoliad yn meddu dylanwad iachus ar feddwl a chymeriad dyn ieuanc. A phan y symuda ein pobl ieuainc i ardaloedd o'r fath, ein dyleddswydd yw eu hanog i fynychu neu i ymuno a rhyw achos crefyddol. Ond yr hyn a bair i ni lawer o flinder meddwl yw ein methiant i wneud y fath argraff ar feddyliau ein pobl ieuainc ag i'w gwneud yn ffyddlon i'n hegwyddorion yn mha le bynag y syrth eu llinynau. Y fath luoedd o bobl ieuainc sydd wedi eu magu yn ein heglwysi yn Nghymru—yn neillduol felly yn Ngheredigion—y rhai ydynt erbyn hyn wedi llwyr droi eu cefn arnom.

Mae hyn yn fater nas gall lai na pheri blinder meddwl i bob un a anwyla ein hegwyddorion, ac awgryma'r gofyniad, "Beth yw'r achos?" Mae'n hawddach gofyn nac ateb gofyniad bob amser. Felly yn yr achos hwn. Diau fod llawer o achosion wrth wraidd hyn. Ond credwn nad pell o le fyddem pe y priodolem y golled i'r esgeulusdod a'r cam ar ein tu yn y gorphenol i arfogi ein pobl ieuainc, tra yn ein gafael, â gwybodaeth drwyadl o'n hegwyddorion ac o'r rhesymau sydd genym dros eu coleddu.

Hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol, ni wnaed ond y peth nesaf i ddim yn y cyfeiriad hwn—ni wnaed ond ychydig o ymdrech i hy-

fforddi'r ieuainc yn ein hegwyddorion. A phan yr elent allan o gylch yr aelwyd a'r capel y magwyd hwy ynddynt, yr oeddent yn hollol analluog i wrthsefyll yr ymosodiadau a wnaed arnynt, ac felly ymwadent a'r cwbl, a thaflent eu hunain i ganol y llifeiriant i nofio gydag ef.

Ac nid yn unig hyn ond edrychid yn gilwgus gan lawer o Undodiaid ar unrhyw ymgais i hyfforddi ein hieuenctyd yn ein hegwyddorion. Yr ydym cyn hyn wedi clywed llawer o Undodiaid yn dadleu yn wresog dros adael y plant yn llonydd, fel y caffont chwareu teg i ffurfio eu barn pan wedi tyfu i fyny. Ond pa fodd y gallant ffurfio eu barn heb feddu'r wybodaeth angenrheidiol? Yn hyn o beth mae ein cyfeillion iawnffyddol lawer yn ddoethach yn eu cenhedlaeth. Gofalant hwy fod eu plant yn cael eu haddysgu yn dda yn egwyddorion eu crefydd, ac erbyn y tyfant i fyny mae eu hymlyniad wrth achos crefyddol eu tadau yn sicr, ac edmygwn hwy am hyn; a da fyddai i ninau i'w hedmygu yn hyn o beth. Oherwydd os credwn fod ein hegwyddorion yn fwy ardderchog a gwir nag unrhyw egwyddorion y gwyddom ni am danynt, yn sicr mae dyledswydd yn galw arnom i roi y goreu a feddwn i'n plant.

Trwy ddwyn ein plant i fyny mewn gwybodaeth drwyadl o'n hegwyddorion byddwn, nid yn unig yn sicrhau eu hymlyniad wrthynt, ond gwneir hwynt hefyd yn genhadau effeithiol i daenu gwybodaeth am yr egwyddorion hyn yn y cylchoedd y digwydd i'w llinynau syrthio, ac felly i wneud ychydig at barotoi'r ffordd ar gyfer y 'diwygiad newydd" ag sydd, ni a gredwn, i wawrio.

Efallai y ceir achos arall o'n colled yn y cyfeiriad hwn yn ein hoerfelgarwch. Rhaid cyfaddef ein bod yn oer—yn oer, fodd bynag, mewn cymhariaeth a'r cyfundebau iawnffyddol. Pan yr ymsefydla dyn ieuanc mewn cymydogaeth newydd, mae mewn angen am gydymdeimlad a serchogrwydd. Ac ofnwn mai rhy fach o hyn geir yn ein capelau ni; tra mae y dyn ieuanc, y fynud yr ä trwy ddrws capel un o'r enwadau ereill, ar unwaith yn teimlo ei fod yn mhlith cyfeillion, a gwna ei gartref yno bron yn ddiarwybod iddo ei hun; ac y mae'r brwdfrydedd a wel yn ereill o'i amgylch yn ei wneud yntau hefyd yn frwdfrydig. Clywsom bregethwr yn ddiweddar yn desgrifio sut oedd "*Unitariaid* oer o Geredigion yn dawnsio" mewn cyfarfod diwygiadol yn y Rhondda. Dawnsient (fel y mynai y gwr parchedig i ni i ddeall yn ddiau) o lawenydd am eu hachubiaeth rhag "pren upas" Undodiaeth, a'u harweiniad i noddfa ddyogel. Yn ein tyb ni nid oedd ond ffrwyth yr ymgais i weithio ar y teimladau ar draul esgeuluso y rheswm. Mae'n bosibl gweithio ar y teimlad i raddau gormodol, fel y gwneir mewn cyfarfodydd diwygiadol; ac y mae'n bosibl talu sylw i ddadblygiad y rheswm ar draul esgeuluso'r teimlad, yr hyn yw'r pechod parod i'n hamgylchynu ni fel enwad. Ni ddadleuwn dros dalu llai o sylw i ddadblygiad y rheswm, ond yn hytrach dros wneud mwy o ddefnydd o'r teimlad.

A ydyw Undodiaeth yn anghymwys i gynyrchu brwdfrydedd a

gwresogrwydd? Ni chredwn hyn. Mae'n anghymwys i gynyrchu'r brwdfrydedd a'r gwresogrwydd a welir yn gyffredin yn y byd crefyddol. Ond mae ein crefydd, egwyddor sylfaenol yr hon yw cariad, yn sicr yn abl i greu'r teimlad hwnw o frwdfrydedd gwresog a gweithgarwch ffyddlon ydynt yn hanfodol i lwyddiant pob cymdeithas.

Ymgais i gywiro'r diffyg cyntaf yw'r gyfundrefn o arholiadau mewn gwybodaeth grefyddol sydd yn ddiweddar wedi ei sefydlu yn ein plith. Ac y mae'r ymgais yn ganmoladwy iawn. Efallai ei bod eto yn anmherffaith. Ond dylid ei barnu, nid wrth yr hyn a wneir, ond wrth yr hyn a geisir wneud. Mae pob mudiad ar y dechreu yn ddiffygiol. Daw perffeithrwydd yn raddol. Yr hyn ddymunem alw sylw ato yn awr yw'r pwysigrwydd o wneud defnydd helaethach o honi. Trwy hyn arfogir ein pobl ieuainc a gwybodaeth o'r egwyddorion a anwylir genym, sircheir eu hymlyniad wrthynt, a gwneir hwynt yn genhadon i'w lledaenu yn y cylchoedd ag y byddant yn troi ynddynt.

NYTH Y FRAN.

Cristionogaeth mewn Perygl yn Nghymru.

Hen gri mewn byd ac eglwys pan byddo rhyw ddiwygiad ar droed yw fod pobpeth yn myned at y diafol mor gyflym byth ag y medra. Wn i ddim faint o weithiau mae'r wlad yma wedi bod yn rhuthro dros y dibyn oddiar *Reform Bill* 1832, pan y dihunodd y bobl gyffredin i weled fod ganddynt hwy ryw *interests* heblaw bwyta bara caled trwy chwys eu gwyneb. Os gwrandawn ni ar y rhai ydynt mor barod i broffwydo, mae crefydd, yr eglwys a Christionogaeth wedi bod ar dranc angeu dro ar ol tro, byth oddiar pan chwythodd yr awel trwy ddyffryn yr esgyrn sychion ar ymddangosiad yr *Essays and Reviews* tua'r flwyddyn 1860. Gyrir pobl dduwiol i ddychryn gyda'r ad-

sain wanaf o heresi, a hiraethant am yr hen amseroedd bendigedig pan na therfysgid o gwbl ar ffydd ddiniwed a thawelwch digyffro yr eglwys. Ond, fel mae'n digwydd, mae oesau'r ffydd wedi myned heibio hyd yn nod yn Nghymru ; mae awelon iachus y wybodaeth ddiweddar am y Beibl yn chwareu yn nghonglau llychlyd llawer Eglwys a Chapel na ddisgwyliem ni, ac mae calonau hen *fossils* parchedig yn cael eu llanw â braw wrth feddwl am y dinystr sydd yn bygwth yr hyn maent hwy yn alw yn Gristionogaeth. Cynhaliodd

Undeb Pobl Ieuainc Cymru

ei gyfarfodydd blynyddol yn Llandrindod yn ystod y mis diweddaf. Symudiad newydd ydyw hwn wedi ei gychwyn gyda'r amcan i gael pobl ieuainc Cymru i gydweithredu er hyrwyddo dyrchafiad moesol ac ysprydol y genedl. Nid ydym wedi clywed beth yw amodau aelodaeth, a ydyw yn gyfyngedig neu peidio i'r eglwysi efengylaidd, fel cyngrair yr Eglwysi Rhyddion. Ond gan nad beth am hyny, efengylaidd neu beidio, cododd heresi ei phen yno yn ddigon digywilydd, mewn papyr a ddarllenwyd gan y Parch. J. Morgan Jones, B.A., gweinidog newydd ei sefydlu yn Eglwys Gynulleidfaol Saesnig, Aberdar, o Goleg Mansfield. Mae ysgrifenydd nodiadau golygyddol *Tarian y Gweithiwr* am Awst 22ain, wedi ei ddychrynu yn ddirfawr, ac wrth son am y cyfarfodydd, dywed fel hyn : "Yr unig nodyn ansoniarus a dorai ar y gynghanedd oedd yr araeth ar y Beibl. Yn sicr, mae yn rhy gynar eto i awyru casgliadau mwyaf eithafol uwchfeirniadaeth fel pe baent yn Efengyl, a'u cymhell ar y werin bobl. Os tynir yr Ysgrythyr i lawr o'i safle, gan ei gwneud yn lyfr ffaeledig fel rhywlyfr arall, ac yn agored i gyfeiliorni, bydd ffydd y bobl gyffredin mewn Cristionogaeth yn sicr o wanhau yn ddirfawr, os na dderfydd am dani yn wir. Parodd yr anerchiad yr ydym yn cyfeirio ato i ni ofid calon." Do, do ; nid ydym yn ameu. *O, sancta simplicitas !* fel y dywedai Huss wrth yr ystanc, pan y gwelai hen wraig yn hercian yn mlaen ac yn llusgo ffagod i'w thaflu i'r goelcerth oedd yn fflamio oddiamgylch iddo. Busnes ofidus ydyw hi i weled yr hen draddodiadau cysegredig yn cael eu bygwth. Nid ychydig oedd y cyffro yn

Hen 'Rookeries' Eglwysig Jerusalem

pan aflonyddwyd hwy gan yr hanes cyntaf am y Prophwyd Radicalaidd oedd wedi codi yn Galilea. Yr oedd hi yn ofid calon i'r Sanhedrim Iuddewig i gael allan fod yr Efengyl newydd yn fflam fyw ar dafodau y dysgyblion, er y tybient hwy iddi gael ei diffodd am byth ar Groes Calfaria. Bu Paul yn ddraenen yn ystlys y Geidwadaeth Iuddewig hyd ei farw. Yr oedd hi yn ofid calon i'r Pab a'i Gardinaliaid pan y llosgodd Luther lythyr ei esgymundod yn gyhoeddus yn Wittenberg, ac a ddechreuodd symudiad oedd yn cynwys ynddo ei hun ryddhad y meddwl dynol oddiwrth ormes pob *dogma*. Bustl a chwerwedd i Calfin oedd fod y fath *heretic* dienwaededig a Servetus yn beiddio codi ei lais yn erbyn penderfyniadau ei awdurdod ef. Gorfodwyd y Methodistiaid Calfinaidd, gyda gofid calon, yn 1791, i esgymuno Peter Williams, yr esponiwr, am ryw syniad diniwed ar athrawiaeth y Drindod nad oedd yn gymeradwy yn ngolwg duwinyddion addfed a dysgedig y cyfnod hwnw. Torodd yr enwog Jones Talsarn wedi hyny ar draws terfynau y Gyffes Ffydd, a bu yn flinder yspryd i eneidiau duwiol am flynyddau lawer. Faint o gyffro gymerodd le yn yr enwad Anibynol yn amser yr hen John Roberts, Llanbrynmair, pan y ceisiai yr ysgol newydd yn enw Ffwleriaeth a phethau felly i ddryllio iau caethiwed yr hen farbareidd-dra Calfinaidd ?

Dyma'r Meini Coffa

ar *drack* cynydd y meddwl dynol trwy yr oesau, ond mae'n ofid calon i filoedd heblaw golygydd y *Darian*, pan mae'r hen yn cael ei wthio dros y dibyn a'r newydd yn cymeryd ei le. Awgryma y mater ddau neu dri o gwestiynau. (1) Gyda golwg ar y cyfeiriad at y werin bobl yn y nodyn yn y *Darian*, a ydyw datguddiadau y wybodaeth newydd i gael eu cadw yn gudd oddiwrth y bobl, ac i aros yn *fonopoly* offeiriaid, pregethwyr a dynion dysgedig? Mae'n ddigon gwybyddus fod nifer fawr o'r dosparth hwn yn Nghymru yn hollol gyfarwydd a'r addysg newydd am y Beibl, ac wedi ei derbyn ar y cyfan fel ffaith nas gellir ei gwrthod. A ydynt i fod yn gwn mudion, ac i aros yn ddystaw mewn perthynas i'r gwirionedd hwn sydd yn llosgi yn eu calonau? Ai dyna'r esiampl mae prophwydi a diwygwyr mawrion y gorphenol wedi adael ar eu hol i'r rhai ydynt yn proffesu bod yn arweinwyr crefyddol yr oes hon? (2) Y cwestiwn yw nid mater o ganlyniadau; byddai yn dda i ni adael pethau felly i ddoethineb uwch na'n heiddo ni. Ond beth ydyw'r gwirionedd? A ydyw'r Ysgrythyrau yn *anffaeledig* ac yn *digyfeiliorn* yn ngoleuni yr ymchwiliad mwyaf gonest a thrwyadl? Gan nad beth feddylia ysgrifenydd y nodyn hwn yn y *Darian*, nid yw o un defnydd i geisio *propio* i fyny athrawiaeth anffaeledigrwydd y Beibl yr amser hwn o'r dydd. Mae y syniad o *inerrancy* neu gymeriad digyfeiliorn yr Ysgrythyrau wedi diflanu am byth, fel argyhoeddiad o feddwl pob dyn ag mae ei farn yn werth rhywbeth. Mae Geiriadur mawr Hastings ar y Beibl, ag y dywedai golygydd *Trysorfa* y Methodistiaid am dano er ys tipyn yn ol, ei fod yn

IACHUS

trwyddo, yn ddiamwys ar y mater hwn. (3) Dywed y nodyn fod perygl y derfydd am Gristionogaeth yn gyfangwbl os gwneir y Beibl yn ffaeledig. Sut mae'n digwydd fod crefydd wedi llwyddo yn y byd ac wedi bod yn ddylanwad yn nghalonau dynion

Cyn bod un Beibl?

Yr oedd crefydd yn allu Duw yn mhlith yr hen Hebreaid cyn bod un llyfr o'r Hen Destament wedi ei osod wrth eu gilydd. Yr oedd Cristionogaeth yn fyw ac yn gwneud ei gwaith dwyfol yn y byd cyn i un linell o un llyfr o'r Testament Newydd gael ei ysgrifenu. Cyfnod ei llwyddiant mwyaf rhyfeddol fel crefydd genhadol oedd y tri chan mlynedd cyntaf, cyn i ganon y Testament Newydd gael ei benderfynu, heb son am ei anffaeledigrwydd; nid yw hwnw ond *dogma* Brotestanaidd osodwyd i fyny yn amser y Diwygiad er mwyn *matchio* anffaeledigrwydd yr Eglwys a'r Pab. Yr hyn a wnaeth Cristionogaeth unwaith, paham na all hi wneud eto? Os darfu iddi unwaith lwyddo i wneud ei gwaith heb Efengylau ac Epistolau awdurdodedig, onid yw yn gasgliad teg nad yw ei bodolaeth yn anwahanadwy gysylltiedig a llyfr *anffaeledig* beth bynag? O'r hyn leiaf, gan nad beth ddywed y *Darian*, mae yr *experiment* o ddysgu Cristionogaeth gyda help llawlyfr nad yw yn anffaeledig, yn sicr o gael ei threio ar raddfa helaeth yn mhwlpudau ac ysgolion Sul yr ugeinfed ganrif.

Angladdau Mawrion Hanes.

Yr oedd gan y diweddar Ddeon Stanley lygad neillduol o graff i ffeindio allan unrhyw amgylchiad mewn hanes fyddai'n debyg o wneud argraff--unrhyw olygfa y gallai wneud darlun tarawiadol o honi fel ag i apelio yn uniongyrchol at ddyddordeb y darllenydd. Dyna brif swyn ei weithiau hanesyddol. Ymddengys hefyd fel pe byddai wedi dewis ei bynciau fel byddo'r gyneddf hon yn

cael eithaf chwareu teg. Bu mewn tipyn o benbleth ar y dechreu gyda golwg ar ddewisiad pwnc i ddarlithio arno yn Rhydychen pan y gwnaed ef yn Broffeswr Hanesiaeth Eglwysig yn 1857. Yn y diwedd penderfynodd ar yr Eglwysig Iuddewig, ac yr oedd ganddo holl gyfoeth darluniadol y Beibl wrth ei law. Aeth i'r Aipht a Phalestina yn 1852, a'r canlyniad oedd ei lyfr ar *Sinai and Palestine*—y llyfr teithiau mwyaf dyddorol a phoblogaidd a gyhoeddwyd erioed. Cymerwch yn eich llaw ei waith ar yr Eglwys Ddwyreiniol; darllenwch ynddo hanes Cynghor Nicæa yn 325 O.C., ac yr ydych yn cael eich cludo heb yn wybod i chwi i ganol yr olygfa, yn lygaid ac yn glustiau i gyd, a theimlwch yn hollol gartrefol o dan amgylchiadau mor ddieithr i brofiadau ac arferion cynefin i chwi o'r blaen. Wrth ddarllen cyfrol gyntaf ei *Life and Letters*, tud. 443, cawsom ein taraw yn neillduol gan lythyr o'i eiddo at gyfaill, yn yr hwn mae y nodwedd ag y cyfeiriwyd ati yn dyfod i'r golwg mewn dull mor awgrymiadol. Mae

ANGLADD Y DUC WELLINGTON

yn 1852 yn ei arwain i sylwi ar angladdau mawrion hanes, mater nag oeddem ni ddim wedi meddwl am dano erioed o'r blaen.

YR ANGLADD CYNTAF

ydyw angladd Hector, fel y desgrifir ef yn Iliad Homer (Llyfr 24)—

"*Such honours Ilium to her hero paid,*
And peaceful slept the mighty Hector's shade."

Yr ail—angladd Camillus yRhufeiniwr, yr hwn a ymddangosai i'r Deon fel y tebycaf o bawb i Wellington o ran cariter (Livy 6 : 1). *Y trydydd*—angladd Alexander Fawr. *Y pedwerydd*—angladd Iwl Cesar, a ddesgrifir gan Merivale yn y drydedd gyfrol o'i *Roman Empire*. *Yn bumed*—angladd y

TYWYSOG DU

yn 1376, ag mae Deon Stanley ei hun yn ei elfen ac ar ei oreu yn rhoddi darlun o hono yn ei "*Memorials of Canterbury.*" Hwn oedd y tebycaf i angladd Wellington yn ei allanolion. Tynid yr elor-gerbyd yn y ddau gan ddeuddeg o geffylau duon; ond o ran gwir alar, yr oedd angladd Nelson yn debycach. Nid oes eisiau dilyn y Deon yn mhellach yn ei sylwadau. Mae swm y cwbl i ni yn ymddangos yn drist a difrifol. Rhyfelwyr oedd y bobl hyn i gyd ag y telid cymaint o barch ac anrhydedd iddynt ar eu hymadawiad. Mor fawr ydyw'r lle mae rhyfel a rhyfelwyr yn lanw yn edmygedd a gwarogaeth dynion. A beth yw rhyfel wedi'r cwbl ond

YR ANIFAIL RHEIBUS YN ORUCHAF

mewn dyn, ac yn rhedeg yn rhydd gan wasgar dinystr a thrueni ar ei holl lwybrau. Ac mae e' gymaint o eilun heddyw ag erioed. Pwy ydyw ein gwroniaid, y rhai sydd yn ateb oreu i *ideals* uwchaf corff mawr trigolion y wlad yma heddyw? Onid rhyfelwyr fel Lord Roberts, Kitchener, a Baden-Powell? A phe byddai un o'r rhai hyn yn digwydd marw, wn i ddim am un cynulliad cyhoeddus a fuasai yn dyfod i fyny a'i angladd mewn poblogrwydd ond *football match* yn ymyl un o'n prif drefi. Am yr Eisteddfod a'r Gymanfa—*they are not in it*, fel y dywedir. Rhyw amser yn ol, yn wyneb pethau felly, dygid cyhuddiad yn erbyn Cristionogaeth ei bod yn fethiant; gosodid hi allan mewn pamphledyn poblogaidd fel *civilised heathenism*—paganiaeth a phlisgyn teneu o *veneer* arno i guddio ei hagrwch o'r golwg, a'r ateb effeithiol i hyny oedd nad oedd Cristionogaeth

Ddim wedi cael Treial eto.

A chyn y gall hi gael treial, mae'n rhaid i ni gael gafael ynddi yn gyntaf. Yr ydym wedi colli golwg arni, fel mae yn guddiedig o dan bentwr o yspwriel yr oesau. Adnabyddwch chwi ddim o'i gwyneb hi fel mae wedi ei lychwinio gan 'staen y credoau, yr ofergoelion, y ddefodaeth, y bydolrwydd a'r nwydau anifeilaidd sydd yn glynu wrthi yn yr holl eglwysi a'i proffesant. Nid yw yn bosibl i glywed llais y Bugail Da ei hun yn nghanol y Babel gymysglyd o leisiau sydd yn aflonyddu y byd Cristionogol—pob un yn dweyd mai ffordd hyn ac nid un ffordd arall mae'r ilwybr i'r nefoedd. Yr ydym yn dechreu dyfod i ddeall yn awr ein bod ni ar y *wrong track* yn gyfangwbl. *Ideal* Cristionogaeth Iesu ei hun oedd teyrnas nefoedd ar y ddaear, nid rhywbeth draw, ond rhywbeth yma, yn egwyddor fyw yn nghalon dyn ac yn myned allan o honi i weddnewid ac i sancteiddio'r byd hwn. Ac yn ngoleuni y syniad hwn gofynir ar bob llaw,

Beth yw Cristionogaeth?

Ac mae'r ateb wedi d'od yn un o lyfrau mwyaf nodedig y cyfnod, wedi ei ysgrifenu gan un a gydnabyddir fel y duwinydd blaenaf yn Ewrop—y Proff. Harnack o Berlin. Mae wedi myned fel tân trwy'r byd. Gwelsom fisoedd yn ol fod pum mil ar hugain o gopiau wedi eu gwerthu yn America. Mewn poblogrwydd yn mhlith ymofynwyr am y gwirionedd, ac mewn dylanwad chwyldroadol, nid oes llyfr tebyg iddo wedi ymddangos oddiar "*Ecce Homo*," yn 1865. Nid yw gofod yn caniatau i ni sylwi ond ar ddau *boint*. Dywed Harnack fod yn rhaid i ni chwilio allan beth yw Cristionogaeth Iesu ei hun trwy gymorth y tair Efengyl gyntaf. Tuallan i'r rhai hyny mae perygl i ni i ddyfod i gyffyrddiad a syniadau nad yw Iesu yn gyfrifol am danynt. Er engraifft, nid Cristionogaeth Iesu ydyw Cristionogaeth y bedwaredd Efengyl ac Epistolau Paul. Rhaid i ni ddyfod i'r penderfyniad nad yw llyfrau y Testament Newydd ddim yn unffurf yn eu golygiadau am Grist ac am ei waith. Peth arall. Mae yr eglwys wedi bod yn gosod y *centre of gravity* i orphwys ar y person *wrong*—y Mab ac nid y Tad. "*Mae gan yr Efengyl, fel y cyhoeddodd Iesu hi, i wneud a'r Tad yn unig, ac nid a'r Mab*," meddai Harnack. Cri gyffredin yn awr ydyw—

Yn ol at Grist.

Cri llyfr Harnack yw, "*Iesu y ffordd at y Tad*," fel y datguddiad uwchaf o'i dadoldeb. Y tadoldeb hwn yw sylfaen a sylwedd y Gristionogaeth newydd—yn cynwys ynddo ei hun y gallu cryfaf a mwyaf ei ddylanwad i greu y dyn newydd a'r gymdeithas newydd, ac i sylweddoli yn y byd wir ddinas Duw—teyrnas nefoedd ar y ddaear.

Y Fran.

ELUSEN.

Y rhai yn awr a heuant—*ei* meusydd
Dim eisiau ni welant;
Os i'r bedd ar ddiwedd ant
I fedi adgyfodant.—*Dewi Wyn o Eifion.*

SYMPOSIUM.

Paham mae pobl mor araf i symud yn mlaen gyd a phobpeth sydd yn dal cysylltiad a'r Beibl?

Mae amryw resymau am hyny, mi dybiaf, a cheisiaf nodi allan y rhai ymddangosant fwyaf pwysig i mi. Mae y mwyafrif mawr o bobl (h.y., yn y wlad hon) wedi cael eu dwyn i fyny i edrych ar y Beibl fel llyfr ar ei ben ei hun—fel gair Duw ei hun, pob gair a phob llythyren o'r hwn sydd naill ai wedi ei ysgrifenu neu wedi ei ysbrydoli ganddo. Maent yn cael eu dwyn i fyny yn yr awyrgylch yma o'u mebyd, ac o ganlyniad, mae rhyw fath o *halo* sanctaidd yn cael ei ffurfio o amgylch y Beibl yn eu meddyliau, ac y maent yn ei gyfrif yn rhyfyg mewn unrhyw un a feiddia amheu cywirdeb unrhyw osodiad ynddo neu a hòna mai llyfr dynol ac agored i gamsyniad yw. Pan y mae dynion yn cael eu trwytho â syniadau o'r fath yma o'u mebyd, gwaith anhawdd iawn yw cael ganddynt i gymeryd golwg wahanol arno. Mae'r meddwl dynol yn fwy ffurfiadol (*plastic*), ac yn fwy parod i dderbyn i fewn syniadau newyddion pan yn ieuanc nag un amser arall, ac mae'r argraffiadau a gaiff dyn pan yn ieuanc yn fwy parhaol ac yn fwy anhawdd i wneud i ffwrdd â hwynt nag mewn un cyfnod arall o'i fywyd. Felly, pan mae pobl yn cael eu hadddysgu yn y syniadau a nodais am y Beibl o'u mebyd i fyny, maent yn gwneud argraff ddofn ar eu meddyliau, ac nid yw yn waith hawdd i gael ganddynt hyd yn nod i roi ystyriaeth deilwng i syniadau gwahanol. Mae eu cred, fel pe tae, wedi myned yn rhan o'u bywyd, ac nid yw ond naturiol eu bod yn gafaelu yn dyn am dani ac yn ei hamddiffyn yn mhob modd posibl pan mae gwneud i ffwrdd â hi yn meddwl y fath rwyg yn eu bywyd meddyliol—pan mae eu syniadau mwyaf anwyl a sanctaidd am Dduw a dyn yn cael eu taflu i lawr ac ereill yn cymeryd eu lle. Nid yw yn ddim llai na chwyldroad yn eu bywyd crefyddol.

Mae a fyno crefydd a deall dyn yn ogystal ag a'i deimlad, ond nid yw pawb yn credu hyn. Yn wir, cred y llaweroedd nad oes a fyno crefydd a'r deall o gwbl, ond mai rhywbeth yn perthyn i'r teimlad yn unig yw; ac oddiar y ffaith hon y cwyd un rheswm arall paham y maent mor araf i symud yn y blaen gyda phobpeth sydd yn dal cysylltiad a'r Beibl. Mae y *teimlad* yn llawer mwy ceidwadol na'r *deall*—yn llawer mwy hoff o aros gyda'r hen bethau ac yn llai rhwyog i fyned rhagddo at bethau newydd. I wireddu y gosodiad hwn nid oes eisieu ond apelio at brofiad pob person unigol. Meddyliwch am foment eich bod wedi cael eich dysgu er yn blentyn nad yw yn iawn i chwiban ar y Sul. Mae eich rheswm a'ch deall, pan y defnyddiwch hwynt gyntaf, yn dweyd wrthych ar unwaith nad oes dim yn feius yn hyny; ac eto am amser (mwy neu lai) wedi i chwi dd'od i'r penderfyniad hwn, mae eich teimlad yn gwrthryfela yn ei erbyn, ac yr ydych yn teimlo ei anghymeradwyaeth a'i anfoddlonrwydd pan yn beiddio cyflawni y weithred syml hon. Yn raddol, fodd bynag, mae y teimlad yn cynefino a'r arferiad, ac y mae ei lais ceryddol yn myned yn llai clir, nes o'r diwedd mae yn peidio yn hollol. Felly, gwelwn mai ein deall a'n rheswm sydd yn penderfynu i ni beth sydd

yn iawn, ac nad yw y teimlad ond yn cwympo i mewn yn raddol a'u dyfarniadau hwy. A chan mai a'r teimlad, naill ai yn gyfangwbl neu i raddau helaeth iawn, y mae crefydd y rhan fwyaf o bobl yn ymwneud, y mae yn canlyn eu bod yn geidwadol mewn pobpeth sydd yn dal cysylltiad â chrefydd ; a chan mai'r Beibl yw sylfaen eu crefydd, nid ydynt yn rhy barod i symud yn y blaen yn eu daliadau am dano. Yn hytrach, y maent yn gafaelu yn dyn yn yr hen syniadau am y Beibl yn yr ofn, os bydd i'r rhai'n i syrthio, y bydd y Beibl yn myned yn ddiwerth, a sylfaen eu crefydd yn cael ei gymeryd ymaith. Dyma'r gwahaniaeth mawr rhwng crefydd a gwleidyddiaeth : mae a fyno'r olaf a'r deall, a'r blaenaf a'r teimlad, ac felly mae dyn fydd yn rhyddfrydwr mewn gwleidyddiaeth yn aml yn geidwadol mewn crefydd.

X.Y.Z.

Dacw long ar y cefnfor yn nghanol ystorm. Mae'r cymylau fel afradloniaid yn ehedeg trwy'r eangder gan dywallt eu cynwys gydag arddeliad anesgrifiadwy ; y gwyntoedd yn chwythu yn fwy nerthol nag arferol, a'r tonau ewynog, fel gwallgofiaid mudion, yn ymrolio yn anystyriol ar draws y llestr unig. Pa fodd y gellir sicrhau ymwared ? O ! mae'r angor wedi gafaelyd yn y dwfn creigiog, ac felly mae'r llong yn bur ddyogel. Angor yn unig sy'n abl i gadw'r llong rhag dinystr yn nghanol y rhyferthwy nwydwyllt. Tybed a wna'r morwyr anwybyddu'r angor gan roddi mantais i gynddaredd yr ystorm i hyrddio'r llong yn *wreck* yn erbyn y creigiau daneddog ? Na, bydd gofal y morwyr am yr angor, fel gofal mam am ei phlentyn, oherwydd fod eu diogelwch mewn ystormydd yn ymddibynu ar nerth a chadernid yr angor.

Dyna ddarlun eglur o ymddygiadau uniawngred ein gwlad. Ystyriant eu credöau yn llongau mawrion a drudfawr sy'n abl i gludo preswylwyr daear--plant Adda--i'r hafan dymunol. Rhoddant yr holl bwysigrwydd ar y credöau gosodedig a haerant nad oes iachawdwriaeth ond trwy gredu yn ffyddlon yn y credöau hyn.

Seiliant eu cyffes ffydd ar y Beibl. Y Beibl, a'r Beibl yn unig, yw'r safon anffaeledig. Gallant ddyfynu adnodau sydd, yn ol eu tyb hwy, yn brofion anwadadwy o eirwiredd eu gosodiadau, a thrwy hyny, yn medru sicrhau cydymdeimlad ac ymddiriedaeth lliaws.

Yn awr, mae'n ffaith a gydnabyddir yn gyffredin, hyd yn nod yn mhlith y mwyaf iawnffyddol, fod llawer o'r credöau hyn mewn perygl. Maent yn nghanol yr ystorm—uwchfeirniadaeth, darganfyddiadau diweddar, y gwyddorau a rheswm fel yn uno i ymosod yn ddidrugaredd ar y credöau. Yn ngwyneb hyn pa fodd y gellir eu dyogelu ? O ! tra y bydd y Beibl, fel yr angor, yn cael ei dderbyn yn nyfnder calon fel llyfr anffaeledig—fel yr unig safon—fel yr unig lyfr sy'n eiriol ysprydoledig, mae'r credöau, yn ol syniad ein brodyr iawnffyddol, yn ddyogel. Tybed a fedr ein brodyr fforddio i anwybyddu'r Beibl fel safon anffaeledig ? Na, os am sicrhau dyogelwch y credöau hyn rhaid gofalu am yr angor—y Beibl.

Araf y symudir gyda'r Beibl. Ië, siwr, ac yn fwy na thebyg fod y ffaith uchod yn cael ei hystyried fel rheswm digonol dros hyny. Meddylier er engraifft fod pawb yn rhoddi derbyniad cynes a chalonog i'r cyfieithiadau diweddar o'r Beibl—y "Cyfieithiad Diwygiedig" a'r "*The Twentieth Century New Testament*" — beth fyddai'r canlyniad ? O ! byddai'r caerau sy'n amddiffynfa i'r credöau yn cael eu dryllio, oblegyd nis gellid wedi'n ddyfynu adnodau megis "Tri yn tystiolaethu yn y Nef ; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân ; a'r tri hyn un ydynt." "Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol ; yr ail dyn, yr Arglwydd o'r nef," &c., i brofi athraw-

iaeth y Drindod. Nid yw'r adnodau hyn a llawer o'u cyffelyb i'w cael yn y cyfieithiadau newyddion. Dywedaf eto os am amddiffyn y credöau, rhaid aros gyda'r hen gyfieithiad o'r Beibl gan bregethu ei anffaeledigrwydd.

M.N.

YR YSGOL SUL.

Plentyn yr eglwys yw'r Ysgol Sul. "A anghofia mam ei phlentyn sugno?" A yw'r eglwysi yn ymddwyn tuag at yr Ysgol Sul yn deilwng o'r wir berthynas sydd rhyngddynt? Dywedodd un awdwr athrylithgar a galluog, "Na fydded i neb guddio ei wybodaeth iddo ei hun, fel na byddo marw gydag ef drysorau o werth anmhrisiadwy pan gasgler ef at ei dadau. Gadawer i'r oll a gasglo dyn o ddoethineb a dysg redeg yn hael er daioni ei genhedlaeth a chenhedlaethau i ddyfod. Ystyried wybodaeth fel ymddiriedaeth gysegredig, fel rhodd ysbryd Duw, i'w rhoddi allan yn llwyr at wasanaeth eglwys Dduw. Llosged ei lusern o flaen yr allor, gan ei thrwsio a'i phorthi ddydd ar ol dydd ag olew gras ac hunan-ymgysegriad." Cynghor ardderchog, teilwng o bob ystyriaeth, a dylai aelodau crefyddol, yn arbenig, feddwl yn ddwys a difrifol am dano. A yw'r aelodau henaf yn ein heglwysi yn ffyddlon i'r cynghor pwysig hwn mor bell ag y mae eu perthynas a'r Ysgol Sul yn y cwestiwn? Holed pob un ei hun, ac atebed yn gymhwys a gonest. Cyfaddefa pawb fod angen diwygiad yn nglŷn a'n Hysgolion Sabbothol. Achwyniadau glywir o bob cyfeiriad; rhyw ddifaterwch anesgusodol yn blino yr ychydig ymdrechgar perthynol i'n hysgolion. A ydym wedi colli pob blas ar lafurio mewn gwybodaeth grefyddol? Athrawon penododig yn glaear ac yn ddifater. Mae esgeulusdod athraw i bresenoli ei hun gyda'i ddosbarth yn niweidiol iawn; mae yn gwneud cam a phob plaid yn yr ysgol, yn rhoddi trafferth afreidiol i'r arolygwr i chwilio athraw yn ei le, yn diflasu y plant, ac oherwydd hyny yn chwalu dosbarth gobeithiol. Y pwynt yr ydym ni fwyaf diffygiol ynddo yw addysgiaeth y plant. Nid ydym yn ddigon effro i ddyheadau eneidiau yr ieuengctyd. Rhodder eu lle i'r plant; rhaid egwyddori y plant os ydym am eu codi yn gryf ac iachus yn mhynciau glanaf ein ffydd, a'u helpu i ymddadblygu fel meddylwyr gonest a chydwybodol. Carwn alw sylw pawb at yr Arholiad. Un o sefydliadau pwysicaf yr oes hon yw yr arholiad. Saif yn ngenau pob mynedfa i anrhydedd, yn wladol ac eglwysig. Felly gelwir arnom i ragbarotoi ein hysgoleigion ar gyfer yr amgylchiad. Yn maes llafur yr arholiad y dylai y gwahanol Ysgolion Sul fod yn llafurio yn ystod misoedd y gauaf er sicrhau llwyddiant yn yr arholiad. Y mae'r ysgolion wedi gwneud yn dda iawn yn y gorphenol; gobeithio nad oes dim trai i fod eleni.

Apeliaf yn ddwys ac yn gariadus at bawb i wneud eu goreu, gan lwyr gredu, ond cael cydweithrediad, y gellir sicrhau rhagorach ffrwyth. Ymdrechwn wneud ein hysgolion yn nerthol a goleuedig, fel y gellir dweyd

am danynt, "Yn dy oleuni di y gwelwn ni oleuni."

Yr wyf wedi derbyn archebion am y Gwersi oddiwrth amryw ysgolion, ac hyderaf yn weddigar y gwna eraill ddilyn eu llwybrau mor fuan ag sydd bosibl. Ati o ddifrif yw dymuniad

Yr eiddoch,

Trebanos. T. J. JENKINS,

COLOFN Y PLANT.

ARWYDDAIR.—"*Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur gwna a'th holl egni.*"

Y BRENIN ALFRED.

Nid oes ond ychydig iawn o frenhinoedd a brenhinesau unrhyw wlad yn deilwng i'w dal o flaen y plentyn fel esiamplau iddo i'w dilyn. Am y mwyafrif o honynt goreu i gyd po leiaf ddywedir neu a ysgrifenir. Un o'r eithriadau—un o'r teilyngaf o honynt—yw'r Brenin Alfred, neu Alfred Fawr, fel y gelwir ef yn gyffredin. Gan fod cymaint o sylw wedi ei roi i'w goffadwriaeth yn ystod y mis diweddaf mewn cysylltiad a dathliad y filfed flwyddyn o'i farwolaeth, efe gaiff ein sylw ninau hefyd y tro hwn.

PWY OEDD ALFRED?

Yr oedd yn fab—y mab ieuengaf—i Ethelwulf, Brenin Wessex. Ganwyd ef yn Wantage yn 849. Yr oedd ganddo bedwar o frodyr henach nag ef, yr oll o'r rhai fuont yn teyrnasu am beth amser; ac ar farwolaeth yr olaf o'r pedwar yn 871, dilynwyd ef gan Alfred pan nad ond 22 oed, a bu'n eistedd ar yr orsedd, neu, yn fwy cywir, yn teyrnasu hyd ei farwolaeth ar y 27ain (neu, ar y 26ain yn ol rhai, ac ar yr 28ain yn ol ereill) o Hydref, 901. Am y rhan fwyaf o frenhinoedd Lloegr, dyma i gyd ellid ddyweyd—eu bod wedi eu geni, wedi esgyn i'r orsedd ar adeg neillduol, wedi bod yn achos i fwy neu lai o ryfeloedd (anghyfiawn fynychaf), ac yna, ar ol bod yn y swydd am ychydig flynyddau, eu bod wedi marw. Ac am eu cymeriadau, gwell fyddai eu cadw yn llwyr dan gudd. Ond pe gadawem Alfred, ar ol cofnodi'r ffeithiau uchod, byddem yn cadw o'r golwg yr hyn oedd yn ei wneud yn berson mor ddylanwadol yn ei ddydd a swynol i'r cenhedlaethau ar ol hyny, ac yn arwr at yr hwn yr edrycha pob un sydd gyfarwydd a hanes ei fywyd i fyny gyda balchder.

ALFRED A'R DANIAID.

Erbyn 871 yr oedd y Daniaid—pobl wedi d'od drosodd o'r cyfandir i Loegr gyda'r bwriad o'i meddianu—wedi goresgyn y rhan fwyaf o'r wlad ar y tu gogleddol i'r Tafwys; a dechreuent wthio yn mlaen i diriogaeth Alfred. Yr oedd Alfred wedi cymeryd rhan mewn amryw frwydrau yn eu herbyn cyn iddo gael ei wneud yn frenin, ac wedi dangos dewrder neill-

duol yn mhob un o honynt. Yn nghwrs y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, ymladdodd gynifer a naw o frwydrau â hwynt; ac er na fu yn llwyddianus yn yr oll o honynt, eto llwyddodd i gael gan y Daniaid i fod yn llonydd am ychydig flynyddau. Ar ail-ddechreuad eu hymosodiadau yn 878, bu raid i Alfred i gilio i ran o Wlad yr Haf (i Ynys Athelney, yr hon a ffurfid gan uniad dwy afon). Cyn diwedd y flwyddyn, fodd bynag, gorthrechwyd y Daniaid, a gwnawd heddwch rhyngddynt ag Alfred, prif delerau yr hwn oedd fod Guthrum, eu harweinydd, i dderbyn Cristionogaeth, i gydnabod uwchafiaeth Alfred, ac i foddloni ar y diriogaeth a ganiateid iddo gan yr olaf. Yn ol y cytundeb hwn, yr oedd y wlad ar y tu deheu i'r llinell uniawn rhwng Llundain a Chaerlleon i fod yn eiddo i Alfred, a'r wlad ar y tu gogledd i'r cyfryw linell i fod yn eiddo i'r Daniaid. Cadwodd yr olaf at y telerau hyn yn ffyddlon hyd farwolaeth Guthrum. O 878 hyd 893 mwynhaodd y wlad gyfnod o heddwch cymharol. Ond trwy'r oll o'r amser hwn ni fu Alfred yn segur, ond ymroddodd i'r gwaith o godi ei wlad fechan o'r cyflwr truenus yr oedd ynddo mewn trefn, gwybodaeth, gwareiddiad a moesoldeb. Adnewyddwyd yr ymdrech rhyngddo a'r Daniaid eto yn 893, a pharhaodd hyd 898, pryd y gwnawd heddwch yr ail waith, ac ni flinwyd ef ganddynt drachefn am y gweddill o'i oes.

Paham "Alfred Fawr"?

Unig hawl y rhan fwyaf o frenhinoedd i'r gair "mawr" yw eu gwrhydri mewn rhyfeloedd; ac y mae cenedlaethau wedi myned heibio bellach er pan fu y brenin yn cymeryd rhan bersonol mewn rhyfel—y brenin olaf fu mewn brwydr oedd Sior II., yr hwn a gymerodd ran yn mrwydr Dettingen yn 1743. Ond perthynai i Alfred y rhagoriaethau hyny a wnant bob dyn a'u medd yn fawr, bydded frenhin neu peidio. Cymerodd ran helaeth mewn rhyfeloedd; yn wir, mae yn amheus a fu un o frenhinoedd Lloegr yn byw mewn amser mor enbydus. Ond nid ei ddewisiad ef oedd hyn, ond gorfodaeth a achosid gan yr ymosodiadau wneid ar ei wlad. Ond trwy y blynyddau o heddwch a fwynhawyd gan ei fobl yn ystod ei deyrnasiad, ymroddodd i'w sicrhau rhag ymosodiadau, i sefydlu trefn, i ddwyn gwybodaeth o fewn eu cyrhaedd, ac i'w hyfforddi yn egwyddorion syml crefydd.

Ei Hoffder o Lyfrau.

Un ffordd o'i eiddo i gyrhaedd yr amcanion uchod oedd trwy ddarparu llyfrau at wasanaeth ei fobl. Cadwai nifer o ysgolheigion goreu ei oes o'i gylch, gwaith y rhai oedd darllen, cyfieithu ac egluro gweithiau awdurion enwog yr hen amser. A lluosog oedd nifer y llyfrau am y rhai yr ydym yn ddyledus iddo ef a'i ysgolheigion. Casglodd a threfnodd y cyfreithiau a ffurfiwyd gan y brenhinoedd fuont o'i flaen ef, a gwnaeth ei oreu i gael gan ei ddeiliaid i roi ufudd-dod iddynt. Ffordd arall i gyrhaedd ei amcanion oedd sefydlu ysgolion a darparu athrawon i hyfforddi plant ei ddeiliaid i ddarllen. Gellir dyweyd yn fyr mai ei benaf amcan, yn mhob peth a wnelai, oedd hyrwyddo daioni ei ddeiliaid.

Ei Gymeriad.

Ond yr hyn a wnai Alfred yn ddyn gwir fawr oedd ei gymeriad arderchog. Nid oedd un uchelgais hunanol yn perthyn iddo. Yr oedd ei amcanion yn bur—daioni y bobl oedd flaenaf ar ei feddwl. Arwydd-eiriau ei fywyd oedd "Cyfiawnder, sobrwydd, a hunan-aberth"; a'i ddymuniad penaf oedd am heddwch. Dengys yr enwau roid iddo y fath argraff oedd wedi wneud ar y bobl. Gelwid ef — "Anwylyd Lloegr"; "Bugail Lloegr"; "Y Gwir-ddywedwr."

Rhai Chwedlau am Dano.

Ffyna llawer o chwedleuon difyr o gylch enw Alfred. Adroddir am dano yn myned i wersyll y Daniaid fel telynor er cael allan beth oedd eu cynlluniau ; a'i fod, mewn canlyniad i'r wybodaeth enillodd felly, wedi casglu ei filwyr a llwyr orthrechu y Daniaid. Dyma chwedl arall—tra adnabyddus yn wir, ond un na flinir ei darllen er hyny. Sylwir uchod fod Alfred wedi gorfod encilio o ffordd y Daniaid, ac wedi ymguddio yn Ngwlad yr Haf. Arhosai mewn caban tlawd ; ac un diwrnod erchwyd iddo gan ei lety-wraig i ofalu am deisenau oeddynt yn pobi ar y tân, a chydsyniodd yntau. Ond yn fuan, llwyr anghofiodd Alfred am y teisenau, gyda'r canlyniad iddynt i gael eu llosgi, ac iddo yntau, druan, orfod goddef "pregeth" lem gan y wraig. Dylid cofio, er hyny, nad oes gormod o goel i'w roi i'r chwedleuon hyn.

Ei Gyngor i'w Fab.

Enw ei fab hynaf oedd Edward, ac efe oedd i fod yn frenin ar ei ol. Cynghorwyd ef gan ei dad, ychydig cyn ei farwolaeth, fel y canlyn : "Yr wyf yn dymuno arnat, fy anwyl blentyn, i fod yn dad i'th bobl. Bydd yn dad i'r plant, ac yn gyfaill i'r weddw. Dyddana y tlawd, amddiffyna a llochesa y gwan, a chyda'th holl egni gwna yn uniawn yr hyn sydd heb fod felly. Ac hefyd, fy mab, llywodraetha dy hun wrth reol, yna y câr yr Arglwydd dydi, a Duw a fydd dy wobrwy. Galw arno i'th gynghori yn dy holl angen, ac efe a'th gynorthwya i gael dy holl ddymuniadau."

Gwyn fyd na fyddai Lloegr erioed wedi ei bendithio â brenhinoedd o fath Alfred.

Y GYSTADLEUAETH.

Enw priodol "Cwmdarian" yw Daniel Jenkins, 5, Bwllfa Road, Cwmdar, Aberdar.

Yn nghystadleuaeth y Llythyron, y goreu yw "Tramp." Anfoned yntau ei enw priodol.

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i *D. Evans, Cribyn, Llanybyther.*

ADOLYGIAD.

GWERSI AR FYWYD IESU.*

Dymunwn longyfarch Adran Ysgol Sul y Gymdeithas Undodaidd Gymreig, a'r Golygydd parchus, ar ddygiad allan y gyfres hon o lawlyfrau gwerthfawr ar yr Efengylau. Darllenasom gyda llawer o bleser a budd y rhanau blaenorol, ond teimlwn fod y rhan ddiweddaf hon yn rhagori arnynt oll. Wrth ei darllen daeth i'n cof un o'r adnodau cyntaf a ddysgasom pan yn blentyn, "Ac yr awr hon hefyd mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prennau, pob pren gan hyny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da a dorrir i lawr."

Wrth daflu golwg yn ol i'r gorph-

---

*Gwersi ar Fywyd Iesu : fel ei cofnodir yn yr Efengyl yn ol Luc." Dan olygiaeth y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul. Rhan II, Luc ix—xvi. Cyhoeddedig gan Adran Ysgol Sul y Gymdeithas Undodaidd Gymreig. Llandyssul : Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

enol yn hanes yr enwad Undodaidd, nis gallwn lai na sylwi fod yr hen frwdfrydedd cyntefig wedi oeri, a chyfnod hir o gysgadrwydd wedi ei oddiweddyd. Diystyrid yr enwad, a theflid llawer o anfri arno o bwlpudau yr enwadau iawnffyddol (?) mor fynych, fel braidd yr oedd bron wedi myned i amheu a oedd hawl ganddo i fodolaeth o gwbl yn Nghymru. Ceid ambell *un* o bryd i'w gilydd, fel Gwilym Marles, ac eraill, ydynt eto yn ein plith, a'u sel yn fflam, yn codi ei fwyell, ond eto fel i ddim pwrpas. Bellach gwelir arwyddion fod deffroad cyffredinol yn cymeryd lle yn y gwersyll. Mae adran yr Ysgol Sul, dan arweiniad y Parch. W. James, B.A., a thrwy gynorthwy ein gweinidogion, yn hen ac ieuaingc, wedi dechreu torchi llewys, ac yn benderfynol nad yw bwyell rhydd-ymofyniad i'w gadael o'r neilldu i rydu. Profa y rhan ddiweddaf hon o'r gwersi ei bod i gael disgyn yn drymach, a mwy diarbed nag erioed.

Dengys y rhan hon eto yn eglur y gellir rhestru y nifer fwyaf, os nid yr oll o'r ysgrifenwyr yn mlaen-fyddin yr enwad o ran eu barn a'u syniadaeth. O safbwynt grefyddol gyffredin Cymru, llyfr hereticaidd iawn yw y Rhan hon. Tŷr lwybr newydd hollol iddo ei hun ar draws maes esponiadaeth, ond yn ein barn ostyngedig ni, llyfr rhesymol ydyw, a'r hyn a ddylai llawlyfr esponiadol i fod. Mae y nodiadau rhydd-ymofyngar sydd yn britho y gyfres drwyddi, fel *intermittent springs* yn aflonyddu llyn llonydd, neu fel yr angel a gynhyrfai ddwfr Bethesda gynt, a rhoddant iechyd a *relief* i ddyn. Tery y rhan hon yn arbenig, dant clir, iach usol.

Gwneir defnydd helaeth o'r Cyfieithiad Diwygiedig, a nodir y gwahaniaeth sydd rhyngddo a'r Testyn Awdurdodedig. Tra rhagora y *Gwersi* ar ddim ydym ni wedi ddarllen erioed ar yr Efengylau.

Dymunem gymeradwyo y *Gwersi* i sylw pawb. Buasai eu darllen yn lles i'n brodyr union-gred. Caent weled a deall ei bod yn bosibl fod parch dwfn gan Undodiaid i'r Beibl, a gwybod yn gywir beth a dybiwn ni fel enwad am Iesu. Dengys y llawlyfr drwyddo ein hymdrechion i chwilio am y perl gwerthfawr, a'r gwerth dyladwy a roddwn i'r blwch sydd yn ei gynwys.

Mae y rhan hon eto wedi ei hysgrifenu mewn iaith syml a dealladwy. O'r braidd, wrth ddarllen ambell dudalen nag yr aroglwn sawr, ac y gwelwn liwiau blodau ochrau ffyrdd a llwybrau ein Sir enedigol a'r Sir nesaf ati. Mor naturiol y darllena ac y swnia 'coffor,' 'pengam,' 'speng,' 'lingran,' &c.—hen eiriau cyfarwydd y werin.

Carem ddyfynu, ond pa le dechreuwn ac ar ol dechreu pa le i aros, oherwydd caem rhywbeth newydd, *fresh*, ar bob tudalen. Ond maddeuer i ni, wrth derfynu, am nas gallwn lai nag adsain geiriau y Golygydd ar y tudalen diweddaf, yn ngwyneb y "swpso" a geisir wneud yn yr Athrawiaeth newydd—"Ymwaghad,"—un o blanhigion diweddaraf union-gredaeth,—"Buasai yn gryn *relief* . . . . i gredu yn yr athrawiaeth o ddyndod syml Iesu."

Machen. D.E.J.

DIM HEB EI DDYBEN.

Bodau huliant bob deilen—ar y maes
Neu rymusol goeden ;
Etto nid oes un tàn nen
Yn bod heb ateb dyben.—*Tudno.*

COFNODION Y MIS.

"YN NES FY NUW I TI."—Dywedir mai y geiriau hyn oedd y diweddaf lefarwyd gan ddiweddar Arlywydd yr America. Mae yr emyn hwn yr un mwyaf adnabyddus yn yr holl fyd. Cafodd ei ysgrifenu gan Sarah Flower Adams ar gyfer llyfr o emynau oedd i gael ei ddefnyddio yn nghapel Undodaidd South Place, Finsbury; a chyfansoddwyd y gerddoriaeth i'r emyn gan chwaer yr awdures, Eliza Flower, ac yn nghapel South Place, yn 1841, y canwyd yr emyn gyntaf.

PANTDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSSUL.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhauaf yn y ddwy eglwys hon dyddiau Sul a Llun, Medi 22 a 23, pryd y traddodwyd pregethau effeithiol a phwrpasol i gynulleidfaoedd mawrion, gan y Parchn. John Davies, Alltyplacca; William James, B.A., Y.H., Llandyssul; E. O. Jenkins, a Simon Jones, B.A. o Home Missionary College, Manchester. Yr oedd y capel yn Llandyssul wedi ei addurno yn dlws gan foneddigesau yr eglwys; a chafodd plant Ysgol Sul Pantdefaid eu hanrhegu a the a bara brith y prydnawn Llun, fel arferol.

SYMUDIADAU.—30, Wadbro' Road, Sheffield, ydyw cyfeiriad y Parch. J. E. Jenkins; a Riversdale, Holymoorside, Chesterfield, ydyw cyfeiriad y Parch. E. Gwilym Evans, B.A.

PANTEG.—Hen gapel y Bedyddwyr ydyw Panteg, ac o fewn i 3½ milldir i Gastellnewydd Emlyn, yn Sir Gaerfyrddin, ond yn meddiant yr Undodiaid yn rhydd-ddaliadol er ys amser maith, ac y mae yr hen fedyddfa yn aros yr un, a thueddiad i'r syniadau trochyddol yn aros yn barhaus yn mysg rhai o'r aelodau. Dydd Sabbath, yr 8fed o Fedi, derbyniodd y Parch. J. Davies, Alltyplacca, ddau o feibion Mr. J. Bowen, Llwyneinon, yn aelodau. Yr oedd Mr. Davies wedi eu bedyddio trwy drochiad prydnawn y dydd blaenorol. Yr oedd yr henaf dros 16eg oed, a'r olaf yn 15 oed. Ni chafodd neb eu bedyddio yn y fedyddfa er ys 43ain mlynedd yn flaenorol. Boreu Sabbath pregethodd Mr. Davies yn darawiadol iawn oddiar y geiriau a welir yn 1 Brenhinoedd, xiv benod, a'r 13 adnod, ac am 2 o'r gloch i gynulleidfa luosog iawn, oddiar Mathew, xvi benod, a'r 3edd adnod. Nid oes angen canmol Mr. Davies, oherwydd ei fod bob amser yn aros yn y safle uwchaf fel pregethwr, ac yn ddiddadl yr oedd y bregeth brydnawnol yn un o'r goreuon a glywsom ganddo erioed, ac yn anrheg anmhrisiadwy o gyfoeth diwylliedig yr ugeinfed ganrif i'r gynulleidfa luosog. Ataliaf rhag gwneud nodiadau ar y bregeth gan fod bwriad iddi gael ymddangos ar dudalenau YR YMOFYNYDD; felly dymunaf i Mr. Davies hir oes, yn llawn o bob bendith dymhorol ac ysbrydol.

UNDODIAETH YN NGHYMRU.—Mae y dyfyniad canlynol o "*Unity*," am Medi 5, 1901.—"Er cymaint ydyw cyrhaeddiadau ieithyddol Golygydd y "Nodiadau Tramor," mae un gongl fechan o'r byd lle mae meddwl rhyddfrydig mewn crefydd yn fywiog yn y dyddiau hyn, am yr hon nis gallwn ddisgwyl unrhyw hanes yn y golofn hono. Yr ydym yn cyfeirio at y cyfundeb Undodaidd yn Neheudir Cymru, cyfyngedig i ddwy ueu dair o siroedd yno. Rhydd YR YMOFYNYDD, papyr misol yr enwad, ryw syniad sut mae pethau yn myned yn mlaen. Mae rhifyn Awst yn llawenhau yn Nghyfarfod Blynyddol llwyddianus y Gymdeithas Undodaidd Gymreig, a gynhaliwyd Gorph. 23 a 24, yn Llandyssul, pryd y pregethwyd yn Saesneg gan y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, Islywydd y Gymdeithas, boneddwr ag mae llawer o ddarllenwyr "*Unity*" yn edrych yn ol gydag adgofion dy-

munol at ei ymweliad ag America ychydig flynyddoedd yn ol. Mae "*Inquirer*" Llundain yn rhoddi adroddiad Saesneg o'r cyfarfodydd, yn gystal a chipolwg ar y Jenkin Jones gwreiddiol, yr hwn a roddodd gychwyniad, 175 o flynyddau yn ol, i'r mudiad rhyddfrydig mewn crefydd yn Nghymru."

[Mae Jenkin Lloyd Jones, Golygydd "*Unity*," a phregethwr enwog Chicago, yn achau y Jenkin Jones uchod, sef sylfaenydd Llwynrhydowen yn 1726. Fel y canlyn mae'r berthynas: Mae J. Lloyd Jones yn orwyr i Dafydd Llwyd, Brynllefrith, ail weinidog Llwynrhydowen, ac yr oedd yntau yn fab i chwaer Jenkin Jones, yr hwn a darawodd yr ergyd gyntaf yn Nghymru yn erbyn dychrynfeydd Calfiniaeth. Mae yspryd y diwygiwr hwnw yn parhau yn ei dylwyth hwnt i'r môr.]—GOL.

YR YMOFYNYDD.—Mae'n hyfrydwch i ni glywed ambell waith fod YR YMOFYNYDD o ryw wasanaeth, a'i fod yn rhoddi rywfaint o foddlonrwydd i'n darllenwyr. Fel hyn yr ysgrifena Mr. Lloyd Jones, Chicago, Awst 27ain o Tower Hill. Wisconsin. —"Gadewch i mi eich llongyfarch oherwydd gwyneb dysgleiriach a rhagolygon mwy gobeithiol YR YMOFYNYDD. Mae yn welliant diamheuol. Nid oes genyf lawer o amser i ddarllen Cymraeg, ond yr wyf yn croesawu yr ymwelydd bychan hwn yn fisol, ac ni charwn fod hebddo. Wrth siarad y mater drosodd gyda'm brawd John a'm cyfaill ffyddlon David Timothy, yr ydym yn llawenhau yn fawr yn yr arwyddion o fywyd newydd sydd yn amlwg yn y gymdeithas, yn gystal ag yn y misolyn."

[Yr ydym yn ddiolchgar iawn am ambell air o gefnogaeth fel yna, ac yn neillduol oddiwrth un sydd wedi cael profiad blynyddau, ac yn gwybod beth yw anhawsderau Golygydd papyr.]—GOL.

EIN MYFYRWYR CYMREIG.——Carem weled YR YMOFYNYDD o dro i dro yn cael ei wneud yn gyfrwng i roddi pob cefnogaeth i'n myfyrwyr. Ni fu genym, ar un amser, mor bell ag ydym yn gwybod gymaint o rif o honynt, a'r rhai hyny oll yn fechgyn ieuainc mor llafurus a gobeithiol. Yr oedd yn dda genym ddarllen ychydig fisoedd yn ol fod tri o honynt wedi graddio yn eu gwahanol Brifysgolion ar ddiwedd y tymhor diweddaf. Disgwylir y bydd tri arall yn gwneud yr un peth yn ystod y flwyddyn nesaf. Dymunwn iddynt bob llwyddiant. Mae Mr. Gwilym Evans wedi ymsefydlu yn Chesterfield, a bydd yn dda genym glywed fod Mr. J. P. Kane yn llanw un o'n pwlpudau gweigion yn Sir Forganwg yn fuan. Gydag agoriad y Colegau ar ddechreu'r mis hwn deallwn fod pump o'n myfyrwyr Cymreig yn dychwelyd i'r Home Missionary College, yn Manchester; tri i Golegau'r Iesu a Manchester, yn Rhydychen; un i Bangor, a'r llall i Aberystwyth. Un ffaith arwyddocaol gyda golwg ar y myfyrwyr yw fod y deg y cyfeiriwyd atynt, gydag un eithriad, yn perthyn i'n heglwysi yn Sir Aberteifi. Yr eithriad ydyw Mr. Phelps, o Gaerdydd. Mae tri yn dyfod o Lanbedr, dau o Gapelygroes, un o Cribin, un o Llwynrhydowen, un o Llandyssul, ac un o Cwrtnewydd, Ychydig iawn o'n gweinidogion sydd wedi eu geni a'u magu yn Sir Forganwg. Cardis yw yr oll o'n gweinidogion yn Ngheredigion, a chynwys y ddau sydd yno wedi ymneilldu. O naw o'n gweinidogion sydd yn llafurio yn awr yn Sir Forganwg mae chwech yn Gardis. Un o Sir Forganwg yw Mr. Williams, Panteg. Yr ydym yn cyfrif fod tri-ar-ddeg o weinidogion Cymreig ar hyn o bryd mewn eglwysi Seisnig yn Lloegr a'r Iwerddon, o'r rhai hyn mae chwech yn Gardis, tri o Sir Gaerfyrddin, tri o Sir Forganwg, ac un o Sir Frycheiniog. Gwelir fod yr hen Sir, enwog am ei phregethwyr, yn cadw ei chymeriad i fyny hyd yn nod mewn cysylltiad a'r Undodiaid. Ond, attolwg, paham mae Sir Forganwg gymaint ar ol yn y mater hwn? Beth yw athroniaeth y pwnc? Carem gael

gair o esponiad oddiwrth R. J. J.; gwnaiff e' gyfiawnder a'r mater yn ddiau, gan ei fod yn rhyw *half and half*, wedi byw trwy ei oes yn Morganwg, ond yn fwy o Gardi na dim arall wedi'r cwbl.—CARDI.

PRIODASAU.

Awst 16eg, yn Nghapel Caeronen, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. James Davies, Llwynifan Cottage, a Miss Mary Emma Davies, Trebanau, y ddau o blwyf Cellan.

Awst 27ain, yn Nghapel y Fadfa, gan y Parch. Wm. James, James Davies, Crugyreryruchaf, a Sarah Thomas, Tibberton, Droitwich, gynt o'r Fadfa.

Ar y 7fed o Fedi, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Llanbedr, unwyd David Thomas, Llysfaen isaf, Llanwnen, mewn priodas â Dinah Davies, Rhydyfydrwydd, Llandyssul.

MARWOFION.

MEHEFIN 20fed, yn 72 mlwydd oed, bu farw Mrs. Lewis, gweddw y diweddar John Lewis, Tyddyndu. Er yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Sefydledig, yr oedd yr ymadawedig yn dderbynydd cyson o'r YMOFYNYDD a'r *Christian Freeman* er's blynyddau hyd ei marwolaeth. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Dihewid ar y 4ydd o Orphenaf. Pregethwyd yn yr Eglwys gan offeiriad y plwyf; cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. T. M. Williams, Llanarth, a T. Lloyd, curad Dihewid; a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

AWST 11eg, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd trwm, yn 53 mlwydd oed, Mrs. Mary Jonathan, anwyl briod Thomas Jonathan, Foelallt, Ciliau Aeron. Yr oedd Mrs. Jonathan yn fenyw dawel a thangnefeddus ei hysbryd, ac yn gymeriad a berchid ac a werthfawrogid gan ei chydnabod. Yn y teulu, yr oedd yn briod ffyddlon ac yn fam dyner a darbodus—ei hoff waith oedd gwylio dros ddedwyddwch a chysur ei theulu, a bydd ei choffadwriaeth yn felus ganddynt tra byddont ar y ddaear. Fel cymydoges, yr oedd yn heddychlawn â phawb, ac yn hynod am ei chymwynasgarwch a'i daioni i'r neb fyddai mewn angen am danynt. Yr oedd yn aelod o Eglwys Ciliau, ac yn ei marwolaeth collodd yr eglwys hono un o'i haelodau mwyaf defnyddiol. Pwy a leinw ei lle? Claddwyd hi y dydd lau canlynol yn mynwent Eglwys Dihewyd. Gadawodd briod a phump o blant, brawd a chwaer, a pherthynasau ereill i alaru ar ei hol. Ar ddydd ei hangladd ni welsom erioed fwy o gydymdeimlad na'r hyn a ddangoswyd a'r teulu hwn, na mwy o barch nag a ddangoswyd i goffadwriaeth yr ymadawedig, gan fod y cynhebrwng y lluosocaf a welwyd yn yr ardal. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. L. Williams oddiar eiriau oedd yn wirion-edd am yr ymadawedig, "Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth," Marc xiv, 8; a

chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Cydymdeimlwn yn y modd dwysaf a'r brawd Thomas Jonathan a'i blant yn eu mawr alar. Nerth gaffont hwy a'r perthynasau eraill i alaru yn gymedrol, ac i efelychu rhinweddau un oedd mor anwyl ganddynt.

AWST 13eg, Rees Davies, Cwmbedw, ger Llanbedr, yn 74 mlwydd oed. Torwyd ef i lawr yn hollol ddirybudd ac anisgwyliadwy yn nhref Aberayron, pan ar ymweliad a'r lle am ychydig ddyddiau er mwyn ei iechyd, yr hwn nid oedd yn gwbl mor dda ag arferol. Teimlir colled a chwithdod neillduol a chyffredinol ar ei ol drwy holl gylch ei adnabyddiaeth, nid yn unig am ei fod yn ddyn didramgwydd a diniwed, ond am ei fod hefyd yn hynod barod i fod o wasanaeth i gyfoethog a thylawd yn y cylch yr oedd yn troi ynddo. Yr oedd ganddo ei dyddyn i'w drin, ond yn ychwanegol at hyny, 'roedd yn feddyg anifeiliaid o'r hen ddosbarth hynod lwyddianus, a rhoddai ei wasanaeth i bawb yn siriol a pharod ganol nos fel canol dydd heb ofyn paham ; ond ei le nid edwyn ddim o hono ef mwy. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi. Gadawodd i alaru'n ddwys ar ei ol, weddw oedranus, heblaw perthynasau eraill a chyfeillion lawer. Claddwyd ei weddillion yn Mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca.

AWST 19eg, ar ol hir gystudd, yn 65 mlwydd oed, Ann, anwyl briod John Jones, 7, Pit Place, Cwmbach, Aberdar. Un o ardal Pontsian, Llandyssul, oedd yr ymadawedig—perthynol i deulu y diweddar Barch. Peter Joseph. Yr oedd hi a'i gwr wedi symud i'r Cwmbach er's llawer o flynyddoedd. Claddwyd yn *Cemetery* Aberdar y dydd Iau canlynol ; David Evans, Cwmbach, yn gwasanaethu. Nerth a gaffo ei gweddw oedranus a methedig i alaru yn gymedrol, ag i allu dweyd, Ewyllys yr Arglwydd a wneler.

COLOFN Y GOLYGWYR.

Y PWLPUD UNDODAIDD.—Buom yn aflwyddianus i sicrhau pregeth o eiddo'r Parch. T. Thomas, Y.H., ar gyfer y rhifyn hwn. Dechreuir y gyfres yn rhifyn Tachwedd gyda phregeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, ar y pwnc, "Arwyddion yr Amserau."

Y SYMPOSIUM.—Cawsom ein synu wrth weled na ddaeth ond dau lythyr i law ar y pwnc hwn. Mae yn un dyddorol a phwysig, a hoffem ei weled yn cael ei drin yn drwyadl. Gobeithiwn y daw ereill i'r maes eto. Pa le mae ein lleygwyr galluog ?

Mae un o'n darllenwyr yn awgrymu y byddai cyfres o erthyglau ar y Beibl yn dderbyniol iawn. Cadwn yr awgrymiad mewn cof.

Erfyniwn ar ein gohebwyr i ysgrifenu ar un tu i'r ddalen yn unig. Trwy wneud hyn, achubant lawer o drafferth i'r cysodwyr.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.